| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **4 Medi, 2017** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar gynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **CADEIRYDD(ION) SGRIWTINI:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **AELOD(AU) PORTLFOLIO:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws (Gwasanaethau Cymdeithasol)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Amherthnasol** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen G Davies (Rheolwr Sgriwtini)**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |

### 1.0 ARGYMHELLIAD

**A1:** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd hyd yma efo gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant
- Fod yr holl raglenni gwaith yn gysylltiedig â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn ymddangos yn rhedeg i'r amserlen hyd yma
- Nid oes unrhyw fater i'w uchafu gan y Panel er sylw'r rhiant bwyllgor ar y pwynt yma.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth yng nghyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] i'r angen i sefydlu 3 phanel sgriwtini sef:

- Panel Sgriwtini Cyllid
- Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion
- **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**

Mae trefniadau bellach mewn lle i gynnal cyfarfodydd cyntaf y 3 phanel.
Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed efo'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

2.2 **Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Mae'r Panel wedi'i sefydlu fel panel sefydlog ac is-grŵp o'r Pwyllgor hwn. Anelir at gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau monitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Arolygaeth Gofal[2]. Bellach mae

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2017 a 26 Mehefin, 2017

[2] Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

yna drefn mewn lle i adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor hwn. Fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel, bydd y Cynghorydd Richard Griffiths yn cyflwyno'r adroddiadau ar waith y Panel.

**3.0 FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

3.1 Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant bellach wedi cyfarfod ar ddwy achlysur, sef:

- 17 Gorffennaf, 2017
- 21 Awst, 2017

Ynghlwm mae'r matrics penderfyniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf y Panel[3] (**ATODIAD 1**).

3.2 Bu i'r Panel ganolbwyntio ar y materion isod hyd yma:

- Mabwysiadu cylch gorchwyl a chadarnhau trefniadau llywodraethiant clir ar gyfer y Panel
- Trosolwg o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar ddwy achlysur
- Sylw manwl i Thema 1 y Cynllun Gwella – Gweithlu a Strwythur y Gwasanaeth
- Rhoi rhaglen waith mewn lle fel sail ar gyfer gwaith y Panel dros y misoedd nesaf
- Cryfhau ymhellach ar y fframwaith llywodraethiant ar gyfer Ymweliadau Laming – ee sicrhau rhaglen dreigl o ymweliadau; cynnwys aelodau'r Panel ar y rota ymweliadau; yr Aelodau'n atebol drwy'r Panel am ymweliadau a chyflwyno trefn adrodd.

**4.0 MATERION I'W HUCHAFU ER SYLW'R RHIANT BWYLLGOR**

Hyd yma, nid oes unrhyw fater i'w uchafu er sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

| **ATODIAD** |
|---|
| Matrics Penderfyniadau – Panel Gwella Gwasanaethau Plant, 17/07/17 |

Cyng Richard Griffiths
Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant mewn Gofal
Dyddiad: 17/08/17

[3] Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2017

**ATODIAD 1**

# PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT, 17/07/17

**Presennol:** Cyng Llinos Medi Huws; Peter Rogers; R Meirion Jones; Gwilym O Jones
Gwynne Jones; Caroline Turner; Llŷr Bryn Roberts; Leighton Rees; Carys Edwards (eitem 5 yn unig); Margaret Peters; Anwen Davies

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1. Ethol Cadeirydd | | **PG1** Etholwyd Cyng Llinos Medi Huws | | |
| 2. Cylch Gorchwyl a Chyd-destun | • **Craffu'r Gwasanaethau Plant** – wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini<br>• **Argymhellion yr AGGCC** - gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd 2 o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:<br>i. A4 - Dylai'r Cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn | **PG2** Crynhoi gwaith y Panel ac adrodd bob ¼ i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pennaeth Gwasanaeth ar y cyd efo'r Rheolwr Sgriwtini [Parhaus] | |
| | | **PG3** Cynnal cyfarfodydd misol o'r Panel | Rheolwr Sgriwtini [Parhaus] | |
| | | **PG4** Cynnig sesiynau briffio unigol i'r Aelodau nad oeddent wedi gallu mynychu heddiw | Caroline Turner /Anwen Davies [21/08/17] | |

[1] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf…"<br><br>ii. A8 – Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael eu cynnal. | | | |
| 3. Gosod Cyd-destun y Siwrnai | • AGGCC yn dychwelyd i fonitro cynnydd rhyw ben rhwng Mawrth→ Medi, 2018. Dim gwybodaeth i law eto ynglŷn â ffurf y gwaith dilyn i fyny<br>• Allweddol sicrhau elfen o hyfforddiant i aelodau'r Panel ee drwy case studies, er mwyn cefnogi'r Aelodau i werthfawrogi cymhlethdodau'r Gwasanaeth<br>• Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gyd-destun allweddol i'r daith wella – heriau a disgwyliadau newydd<br>• Cynnydd sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr plant mewn gofal dros y 3 blynedd diwethaf<br>• Sawl arwydd yn y system dros y 18 mis diwethaf o bryderon am y Gwasanaethau Plant | **PG5** Trefnu sesiynau Hyfforddiant i'r Aelodau fel rhan o raglen waith y Panel | Prif Weithredwr Cynorthwyol/ Pennaeth Gwasaneth/ Rheolwr Sgriwtini [Awst, 2017→ Ebrill, 2018] | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | • Cynllun Gwella cyntaf mewn lle yn ystod 2016. Cynllun Gwella newydd mewn lle yn sgîl adroddiad yr AGGCC (Mawrth, 2017)<br>• Rôl a chyfraniad y Panel hwn yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethiant y daith wella | | | |
| 4. Cynllun Gwella Gwasanaeth | • 6 prif benawd i'r Cynllun Gwella newydd – Gweithlu; Ansawdd Asesu, Ymyrraethau a Phenderfyniadau; Sicrhau Ansawdd; Gweithio efo Teuluoedd; Gwella Gwasanaethau i Deulueoedd ac Adolygu Protocolau<br>• 'Roedd fersiwn gyfredol y Cynllun Gwella'n gosod sylfaen ac yn fan cychwyn. Cam nesaf fyddai i'r Panel gyfrannu at y gwaith o fesur effaith y gwelliannau ac ymyrraethau. | **PG6** Gwaith craffu'r Panel i gynnwys monitro effaith y gwelliannau ac ymyrraethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc | Prif Weithredwr Cynorthwyol / Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr Sgriwtini[parhaus] | |
| | | **PG7** Aelodau i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd | Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd) / Rheolwr Tîm Cefnogi Busnes | |
| 5. Thema 1: Gweithlu a Strwythur y Gwasanaeth | • Ail strwythuro'n mynd rhagddo – 7 o'r 8 Arweinydd Ymarfer bellach wedi'u penodi<br>• Strategaeth Gweithlu cychwynnol bellach mewn lle ac angen ei hadolygu ar ôl cyfnod o weithredu<br>• Monitro effeithiau'r strategaeth gweithlu ar ymarfer a chanlyniadau i ddefnyddwyr yn rhan allweddol o'r siwrnai wella ee holi staff, adborth gan blant a phobl ifanc. | **PG8** Gwaith y Panel hefyd i gynnwys adolygiad o effaith y strategaeth gweithlu ar ymarfer a chanlyniadau i blant a phobl ifanc (deunydd ar gael i'r Panel i gynnwys tystiolaeth o'r effeithiau) | Pennaeth Gwasanaeth/ Rheolwr Prosiect/ Adnoddau Dynol [Ionawr → Mawrth, 2018] | |
| 6. Rhaglen Waith y Panel: Gorffennaf – Rhagfyr, 2017 | • Allweddol sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at y siwrnai wella | **PG9** Rhoi rhaglen waith mewn lle ar gyfer y Panel gan gychwyn efo'r | Rheolwr Sgriwtini | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfnod Awst, 2017 → Mehefin, 2018 | | |
| 7. Dyddiad Cyfarfod Nesaf | • Rhaglennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd misol y Panel, hyd at Ragfyr, 2017<br>• Y Panel i ganolbwyntio ar thema unigol o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth, fesul cyfarfod | **PG10** Cyfarfod nesaf y Panel i'w gynnal 21 Awst, 2017 @ 2.00yp | Rheolwr Sgriwtini [31/07/17] | |
| | | **PG11** Rhaglennu themau'r Cynllun Gwella i'w hystyried fesul cyfarfod o'r Panel | Prif Weithredwr Cynorthwyol / Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr Sgriwtini | |

Mae linc isod i wefan yr AGGCC er mwyn cael mynediad rhwydd at adroddiad diweddar yr Arolygaeth Gofal ar y gwasanaethau plant:
http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/170307angleseycy.pdf

| **STATWS GWEITHREDU** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dim Camau Gweithredu i'w rhoi ar waith** | **Ar darged i roi'r Pwynt(iau) Gweithredu ar waith erbyn y cyfarfod nesaf** | **Rhagwelir oedi o ran cwblhau'r Pwynt(iau) Gweithredu erbyn y cyfarfod nesaf, ond byddant yn cael eu rhoi ar waith.** | **Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â gweithredu** |
| | Gwyrdd (G) | Ambr (A) | Coch (C) |